Cyngor Cymuned Dolbenmaen

Cofnodion cyfarfod misol y Cyngor a gynhaliwyd ar y 5ed o Orffennaf 2018.

1 Presennol – Edward Evans (Cadeirydd) Richard Parry – Bryncir, John Jones Anwen Humphreys Clifford Williams – Garndolbenmaen, Richard Williams – Prenteg, Huw Pritchard Delyth Evans – Pentrefelin, Megan Lloyd Williams – Golan. Cynghorydd Alwyn Gruffydd.

2 Ymddiheuriadau – Amanda N Owen, Maldwyn Owen, Eifion Williams, Dafydd Thomas, Gwilym Evans, Gwenno Huws, Cynghorydd Stephen Churchman.

3 Ddim yn bresennol – neb.

4 Datgan Buddiant – neb.

5 Cywirdeb y cyn-gofnodion – Cofnodion – 7/6/18.
Huw Pritchard yn datgan eu cywirdeb a John Jones yn eilio.

6 Materion yn codi o'r cyn-gofnodion

Materion Priffyrdd - Llifogydd Cae Llyn - bydd y sefyllfa yn cael ei drafod ymhellach gyda Thîm Draenio Tir ac ystyrir y posibilrwydd o weithredu pwerau gorfodaeth ar y perchennog tir cyfagos.
Prenteg - Mae'r llinellau gwyn ddwbl ar y rhestr i dderbyn sylw. Mae pecyn o waith yn cael ei baratoi i gael pris gan gontractwyr i wneud y gwaith ar y telerau gorau.

Mynwent Cwm Pennant - Penderfynwyd derbyn pris Dylan Edwards am wneud y gwaith i lenwi'r bylchau yn y wal.

Pont y Traeth - Cyngor Gwynedd yn fodlon newid yr arwydd i Bont y Traeth (Pont Croesor). Penderfynwyd gofyn i Gwilym Evans am ei sylwadau.

Arwyddion cau ffordd - derbyniwyd e-bost gan Reolwr Uned Traffig, Cyngor Gwynedd. Eglurodd fod y Cyngor yn ceisio sicrhau fod y wybodaeth ar yr arwyddion yn gywir. Os oes camgymeriad yn digwydd yn y dyfodol, dylai'r Cyngor Cymuned gysylltu ar un waith gyda'r Uned Gwaith Stryd.

Rhaglen graidd cyswllt ysgolion Cymru gyfan - Derbyniwyd atebion gan Dafydd Elis Thomas AC a Chomisiynydd Heddlu Gogledd Cymru. Derbyniwyd cydnabyddiaeth gan Aelodau Rhanbarthol y Cynulliad,

gydag addewid o ateb cyn 20/7/18. Penderfynwyd cynnwys yr eitem ar Agenda cyfarfod Medi.

7 Mynwentydd

Mynwent Bethel – Darllenwyd e-bost a dderbyniwyd gan y contractwr ynglŷn â'r broblem o flodau plastig wedi chwythu i bob man yn y fynwent a photeli gwydr tu ôl i'r beddau. Gofynnodd oedd yn bosib gwahardd plastig o'r fynwent. Anwen Humphreys yn cynnig fod plastig yn cael ei wahardd, ond neb yn eilio.

Trafodwyd y posibilrwydd o osod bin yn y fynwent, ond ni chafwyd penderfyniad ar y mater.

Mynwent Prenteg- Giât fach ddim yn cau. Clerc i gysylltu gydag Idris i ofyn iddo edrych arno.

8 Llwybrau Cyhoeddus

Llwybr Ysgol Golan - gofyn i Idris am bris i'w dorri.

Llwybr Brondirion i Llechwedd - bwlch yn y wal. Clifford Williams am ei ail godi.

Llwybr Rhwngddwyryd - coeden ddrain wedi disgyn ar ei draws. Y Cadeirydd am gysylltu gyda'r perchennog tir.

Llwybr o Ysgol Garndolbenmaen am Fryncir - Derbyniwyd e-bost gan Dewi Wyn Owen, Uwch Swyddog Hawliau Tramwy, Cyngor Gwynedd yn nodi ei fod wedi trefnu cael trin y 'Japanese Knotweed' ar y llwybr. Clerc wedi cysylltu gyda'r contractwr i ofyn iddo beidio torri'r llwybr tan fydd y gwaith trin wedi ei gwblhau.

9 Adroddiad Pentrefi –

Pentrefelin

Adroddwyd fod arian wedi ei godi i brynu diffibriliwr i'r pentref. Mae angen lleoliad addas i'w osod.

Garndolbenmaen

Angen llinellau melyn ar rhai o'r lonydd. Clerc i gysylltu gydag Iwan ap Trefor, Cyngor Gwynedd.

10 Cyflwyniad Enwebiad Safle Treftadaeth

Croesawyd Roland Evans, Uwch Reolwr Economi a Chymuned Cyngor Gwynedd i'r cyfarfod. Eglurodd fod Cyngor Gwynedd yn datblygu enwebiad safle treftadaeth y byd ar gyfer chwareli o fewn 7 ardal yng Ngwynedd sy'n cynnwys Gorseddau, Prince of Wales a Melin Ynys y Pandy. Ceir mwy o wybodaeth ar y safle we www.lechi.cymru.

11 Rheolau Claddu

Penderfynwyd ychwanegu brawddeg i'r Ffioedd Claddu i nodi fod y Cyngor wedi mabwysiadu'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth Ffioedd Claddu Plant.

12 Sedd Wag

Derbyniwyd llythyr ymddiswyddo gan y Cynghorydd Gareth Jones, Pentrefelin. Penderfynwyd llenwi'r sedd a chyhoeddi'r rhybudd o sedd wag yn ystod mis Medi. Clerc i gysylltu gyda Raymond Harvey, Swyddog Cofrestru, Cyngor Gwynedd.

13 Arolwg Mynwentydd –
Mynwent Bethel - i'w gynnal yn y dyfodol agos.
Mynwent Penmorfa - Clerc i gysylltu gyda Dafydd Thomas a Gwenno Huws.

14 Mewnfudwyr - Derbyniwyd e-bost gan Ifan Llywelyn Jones, Hunaniaith, Cyngor Gwynedd, yn holi oedd y Cyngor yn bwriadu parhau gyda'i bwriad o baratoi taflen wybodaeth i fewnfudwyr. Bydd ar gael yn yr Hydref i roi cymorth gyda'r gwaith. Penderfynwyd dechrau paratoi'r daflen yn yr Hydref.

15 Gohebiaeth

a Cyngor Gwynedd – Llythyrau gan Cyngor Gwynedd – Rhybudd cau ffordd 5 Tan y Bryn Prenteg 22 – 24/6/18.
Llwybr o Ysgol Garndolbenmaen am Fryncir – gweler eitem 8.

b Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru Digwyddiad i drafod ymchwil newydd ar dlodi gwledig yng Nghymru – er gwybodaeth.

c Cynulliad – Adolygiad o'r sector Cynghorau Cymuned a Thref yng Nghymru – cylchlythyr Mehefin - er gwybodaeth.

ch Cyngor Iechyd Cymru – Datganiad i'r Wasg ac Adroddiad – Cleifion sy'n mynychu adrannau Damweiniau ac Achosion Brys - er gwybodaeth.

d

Parc Cenedlaethol Eryri – Nosweithiau APCE a'r Cynghorau Tref a
dd Chymuned Hydref 2018.
National Grid – Cylchlythyr Haf 2018.

16 Cynllunio

Rhestrau 11/6,15/6, 22/6. Ychwanegwyd rhestr 29/6/18.

Ceisiadau Cynllunio

Cais NP2/16/L304F- Tŷ'r Ysgol, Cwm Pennant, Garndolbenmaen. LL51 9AV. Newid defnydd hen adeilad ysgol yn uned wyliau hunan gynhaliol tymor byr yn cynnwys dymchwel yr allandy sydd ynghlwm, codi estyniad un llawr, mynedfa ceir newydd a trefniant parcio. Dim gwrthwynebiad.

Cais C18/0588/36/LL (derbyniwyd 5/7/18) - Cais llawn i godi tŷ deulawr newydd ar gyfer gweithiwr amaethyddol hanfodol ynghyd a gosod tanc septic, codi modurdy ar wahan a thirlunio. Garneddhir, Golan, Garndolbenmaen LL51 9YT. Dogfennau ar gael 6/7/18. Clerc i'w gyrru at Cynghorwyr Golan a'r Cadeirydd.

17 Materion Ariannol

Ceisiadau am arian: Dim.

Monitro'r gyllideb – Taenlen misol. Dim gorwariant yn erbyn y gyllideb a osodwyd.

Gwirio'r llyfrau 1/4/18 – 30/6/18 (HP a DE) – Cafwyd yn gywir.

Biliau i'w talu

Cyflog Clerc	= £ 237.99
Ffôn	= £ 10.00
Cyfrifiadur	= £ 15.00
HMRC	= £ 59.40
Gwasg y Bwthyn	= £ 38.88
Costau postio/cetrys	= £ 183.28

Ychwanegwyd

Aled Jones	= £ 75.00
Idris Jones	= £ 864.00
Costau teithio Cynghorydd	= £ 16.20

Derbyniadau – dim.

Balansau Cyfrifon Banc: Cadw - £16,781.33. Cyfredol - £5,463.24.

18 Dewis gohebiaeth i fynd i'r Wasg –

- Sbwriel
- Ceisiadau cynllunio.